

Rydych yn ffermwr o Gymru, ac mae'r cynaeafau wedi bod yn wael yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydych chi'n dlawd iawn ac yn cael trafferth bwydo'ch teulu. Rhaid i chi gasglu calch o'r Mynydd Du er mwyn helpu i wneud yn siŵr fod eich cnydau'n tyfu. Mae yna bedwar tollborth ar eich ffordd i fyny'r mynydd. Mae cyfanswm y tollau ar y ffordd i fyny'r mynydd ac yn ôl bron yn ddwbl yr hyn rydych yn ei dalu am y calch. Dim ond ceisio helpu'ch cnydau i dyfu ydych chi. Roeddech chi wedi dod o hyd i ffordd hwy dros y mynydd a oedd yn osgoi dau o'r tollbyrth. Fodd bynnag, o fewn ychydig wythnosau, codwyd tollbyrth eraill ar y ffordd honno hefyd.

Rydych chi'n brwydro i fforddio'r calch ac mae'r tollau'n dreth annheg ar ffermwyr sy'n ymdrechu'n galed yn barod. Dydy hyn ddim yn deg. Rydych chi a grŵp o ffermwyr eraill wedi bod yn gwisgo dillad eich gwagedd ac yn difrodi'r tollbyrth yn ystod y nos. Mae'n beth peryglus i'w wneud gan fod unrhyw un sy'n cael ei ddal yn cael ei grogi, ond dydych chi ddim yn gallu caniatáu iddyn nhw gymryd yr ychydig arian sydd gennych dim ond er mwyn teithio ar ffordd.



Rydych chi'n blismon lleol sydd wedi gweld y difrod mae'r terfysgwyr wedi'i achosi. Rydych chi'n deall bod y ffermwyr yn teimlo bod y tollau'n rhy uchel ond ni ddylen nhw fod yn torri'r gyfraith. Dylai cwynion fynd ar hyd y sianeli swyddogol. Maen nhw eisoes wedi siarad â'r cynghorydd lleol, sydd hefyd yn cytuno nad y trais hwn ydy'r ateb. Mae'r ffermwyr yn anwybodus ynglŷn â sut i ddelio gyda'r mater. Dydy dinistrio eiddo fel hyn ddim yn cyflawni unrhyw beth.

Byddwch yn defnyddio holl rym y gyfraith i ddelio gydag unrhyw drais pellach. Gallai'r gosb olygu trawsgludiad am oes neu hyd yn oed farwolaeth trwy grogi. Mae eu gweithredoedd yn blentynnaidd ac yn wirion. Mae mentro fel hyn yn ffwlbri. Fel un o ddyinion y gyfraith, rydych yn sicr o gynnal y gyfraith, felly dylai Merched Beca ddeall na fydd unrhyw derfysgu, difrod neu fygythion yn cael eu goddef o hyn allan.

